**Pwyntiau allweddol a godwyd:**

- Mynediad a lle ar gyfer aros eich tro, yn enwedig pan mae'n brysur
- Newidiadau i'r cynhyrchion a gwasanaethau
- Cadw'r cyfnod cau ar gyfer yr adnewyddu cyn fyrred â phosibl.

**Ymateb i bwyntiau allweddol:**

**Mynediad a lle**
Rydym yn deall yn iawn y gall pobl amau newid ac rydym yn falch eich bod wedi neilltuo amser i ddweud wrthym am yr hyn sy'n eich pryderu chi. Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn gweithredu o gownter cynllun-agored wrth dil y siop yn y cefn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid gael dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion manwerth. Yn ystod cyfnodau sy'n debygol o fod yn brysur ac i helpu i reoli amserau aros, mae disgwyl i'r postfeistr drefnu bod digon o staff ar gael ym mannau gwasanaeth y siop a'r Swyddfa Bost pan fydd eu hangen.

Yn olaf, bydd digon o le i gwsmeriaid y Swyddfa Bost, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, symud o gwmpas y siop a chyrraedd lleoliad y Swyddfa Bost yn ddirwystr. Gwnaed peth newid i'r celfi gosod a ffitiadau mewnol er mwyn cyflawni hyn.

**Newidiadau i'r cynhyrchion a gwasanaethau**
Mae'r fformat lleol newydd yn symlach nag yw'r drefn mewn Swyddfa Bost draddodiadol. Bydd cynhyrchion a gwasanaethau'n cael eu trafod yn awtomataidd fel bod y gwasanaeth i gwsmeriaid yn gynt ac yn fwy effeithlon, a thrafodion yn cael eu prosesu'n gyflymach. Efallai y byddwch yn gorfod mynd i Swyddfa Bost arall ar gyfer ambell beth sydd yn fwy cymhleth neu sy'n ymofyn gwaith llaw, ac sy'n seiliedig ar bapur. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau ar gael o hyd a bydd y gangen newydd yn dal i allu cynnig bancio llaw a gwasanaethau parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide. Yn ogystal, bydd sieciau'n dal i fod yn dderbyniol ar gyfer talu.

Bydd y nifer fach o wasanaethau na fydd ar gael bellach yn Swyddfa Bost Pontarddulais ar gael o hyd yn Swyddfa Bost Gorseinon.

**Y cyfnod cau ar gyfer adnewyddu**
Rydym yn sylweddoli y bydd cau'r gangen, hyd yn oed am gyfnod byr, yn anghyfleus, ac rydym yn ymddiheuro am hyn. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r postfeistr i wneud yn siŵr y bydd y gangen ar gau am gyfnod mor fyr â phosibl, a gwnawn yn siŵr fod manylion am y canghennau eraill agosaf yn cael eu harddangos ar boster mewn canghennau. Rydym hefyd wedi rhoi rhybudd bythefnos o flaen llaw am y cyfnod cau fel bod gennych amser i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.

